

IESU - PAM Y DAETH EF?

CYN Y SGWRS

- > Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.

Y SGWRS

- > Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw dangos bod Iesu wedi dod i'n hachub o afael pechod, barn ac uffern (Marc 2:17).

Weithiau rydym yn profi pethau mewn bywyd sy'n rhoi dos anghyfforddus o realiti i ni. Efallai eich bod wedi ymuno ag ystafell ffitrwydd ac wedi darganfod pa mor anystwyth ydych chi; neu eich bod wedi cael prawf meddygol a roddodd ysgytwad i chi; neu efallai fod ffrind agos wedi dweud ychydig o wirioneddau wrthych.

Pan ymunais â chlwb rygbi fy mhrifysgol, anfonwyd amserlen ymarfer dros yr haf ataf a gofynnwyd i mi ddod am brawf yn y clwb ar 12 Medi, cyn i'r tymor ddechrau. Nodais y dyddiad ar fy nghalendr ond rhoddais yr amserlen ymarfer corff yn y bin, gan feddwl, "Wel, mi af i redeg rhywfaint a gwneud ychydig o ymarferion abdomen. Mi fydda i'n iawn." Beth bynnag, pan gyrhaeddais, daeth yr hyfforddwr i mewn a dweud, "Nawr, beth am ddechrau gyda'r Prawf Aml-gam." Prawf oedd hwn lle'r oedd yn rhaid i chi redeg yn ôl a blaen dros ugain llath mewn amser â bipian a oedd yn cyflymu a chyflymu. Roeddech chi'n rhedeg nes eich bod yn cwmpo. Fi oedd yr ail i dynnu allan, ar ôl cwmpo a thafu i fyny. Yna roedd yn rhaid i ni dynnu ein dillad hyd at ein trowsus byr ar gyfer y profion braster. Dim ond un chwaraewr arall oedd â chanran uwch o fraster corfforol na fi. Roedd popeth yn cael ei nodi'n ofalus. Roedd yn brofiad llawn cywilydd. Ar ddiwedd yr holl brofion hyn dywedodd yr hyfforddwr, "Wel, nid yw'n brofiad cyfforddus, ond o leiaf rydym wedi dod o hyd i'r gwirionedd ar y maes hyfforddi cyn i'r cwestiynau go iawn gael eu gofyn ar y maes chwarae. Mae rhai ohonoch wedi cael eich dinoethi'n llwyr!"

Gall gwranddo ar yr hyn sydd gan Iesu i'w ddweud amdanoch chi a fi fod yn hynod o anghyfforddus oherwydd mae'n dangos sut bobl ydym ni go iawn. Ac, mewn ffordd, gellid galw teitl sgwrs heno yn "Byddai'n well gennyf beidio gorfod dweud hyn wrthych!"

Yr wythnos diwethaf gwnaethom ofyn, "Pwy oedd Iesu?" Beth bynnag fo'n hateb, mae'n rhaid i ni ystyried y dystiolaeth yn Efengyl Marc, tystiolaeth sy'n awgrymu mai dyn ydoedd oedd â phŵer ac awdurdod Duw.

Roedd yn synnu cynulleidfaoedd â'i ddysgu, yn iacháu afiechydon ac yn tawelu storm, fel y gwelsom yn ein TRAFODAETH GRŴP. Rydym wedi'i weld yn dod â rhywun o farw'n fyw, trwy ddweud, "Fy ngeneth, rwy'n dweud wrthyt, cod." Ac rydym wedi'i weld yn maddau pechodau, fel y cofiwch o stori'r dyn a oedd wedi'i barlysu ddiwedd yr wythnos diwethaf.

Heno rydym yn troi ein sylw at gwestiwn hanfodol arall: "Pam y daeth Iesu?" Sut fyddech chi'n ateb hynny?

Oedd Iesu eisiau dod â heddwch ar y ddaear? Dyna Iesu'r carolau Nadolig. Ai dod i iacháu afiechydon a rhoi terfyn ar ddiodefaint y byd wnaeth Iesu? Dyna Iesu'r iachawr mawr. Neu a oedd eisiau gwella cymdeithas a gosod esiampl i ni o sut mae byw? Dyna Iesu'r athro mawr.

Er bod elfen o wirionedd ym mhob un o'r dewisiadau hyn, nid yw Efengyl Marc yn nodi unrhyw un ohonynt fel prif nod Iesu. Yn ôl Marc, y rheswm y daeth Iesu oedd i achub gwrthryfelwyr.

> *Bydd yn rhaid i chi gael y penawdau canlynol yn barod i'w harddangos, gan ddatguddio pob un yn raddol wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen.*

**Daeth Iesu i achub gwrthryfelwyr.
Rydym ni gyd yn wrthryfelwyr.
Rydym ni mewn perygl.**

MAE GAN IESU BWER AC AWDURDOD I DDYSGU

Felly, pwynt 1, daeth Iesu i achub gwrthryfelwyr.

Agorwch eich Beiblau i Marc pennod 2, adnodau 13-17.

> *Darllenwch Marc 2:13-17 allan yn uchel.*

Fe welwch fod dau grŵp o bobl yn y darn hwn - y bobl dda a'r bobl ddrwg. Mae'r bobl ddrwg yn cynnwys pobl fel Lefi. Roedd pobl yn casáu casglwyr trethi fwy'r adeg honno nag y mae pobl heddiw. Nid yn unig fod pobl yn credu eu bod yn cymryd arian oddi wrth eu cyd-lddewon trwy dwyll, ond roedd pobl hefyd yn credu eu bod yn bradychu pobl Dduw oherwydd eu bod yn gweithio i'r lluoedd Rhufeinig cyfeddiannol.

Y bobl dda yw ffigyrau crefyddol uwch y cyfnod - athrawon y gyfraith a'r Phariseaid. Roeddent yn ymddangos yn berffaith - yn wannach na gwyn, yn nhermau crefyddol.

Y cwestiwn yw, pwy fydddech chi'n disgwyl i Iesu dreulio amser â hwy? Yn reddfodol byddem yn disgwyl iddo fod eisiau treulio amser â'r bobl dda, yr elit crefyddol.

Ond dyma'r hyn y mae Iesu'n ei ddweud wrthynt, "Nid ar y cryfion, ond ar y cleifion, y mae angen meddyg; i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod."

Y sioc fawr yn y parti hwn oedd y bobl yr oedd Iesu eisiau eu gwahodd i ddod. Yn adnod 17 mae Iesu'n dweud, "Rwy'n feddyg ac, fel meddyg, mae gen i ddiddordeb mewn pobl sâl oherwydd bod pobl sâl yn gwybod eu bod fy angen i." Mae'n amlwg nad yw meddygon yn rhoi meddyginiaeth i bobl iach. Pe bai meddyg yn dod i'ch swyddfa gyda chyllell llawfeddyg a thabledi, bydddech chi'n dweud, "Dos o 'ma, paid â dod i'm swyddfa i geisio rhoi llawdriniaeth i mi. Yn hytrach, dos i roi llawdriniaeth i rywun sy'n sâl." Felly mae Iesu'n dweud yma, "Os ydych chi'n meddwl eich bod yn gyfiawn, os ydych yn meddwl eich bod yn iach, dydych chi ddim yn meddwl eich bod fy angen i. Fel nad oes angen meddyg ar bobl iach, dyw'r bobl hynny sy'n meddwl eu bod yn gyfiawn ddim f'angen."

Felly, nid “Wyt ti’n ddigon da?” yw’r cymhwyster i ddod at Iesu, ond yn hytrach, “Wyt ti’n ddigon drwg?” Mae wedi dod i alw pechaduriaid, nid y rhai cyfiawn.

Felly dyna’r ateb i’r cwestiwn, “Pam y daeth Iesu?” Daeth i alw pechaduriaid. “Rwyf wedi dod,” meddai Iesu, “ar genhadaeth i alw gwrthryfelwyr yn ôl i berthynas â’r Duw a’u creodd, â’r Duw sy’n rhoi bywyd iddynt, ac eto sy’n cael ei drin fel troednodyn yn eu bywydau.”

Fe welwn sut mae Iesu’n cyflawni’r genhadaeth honno’r wythnos nesaf, ond heno rwyf eisiau canolbwyntio ar y dybiaeth y mae Iesu’n ei gwneud. Mae’n tybied ein bod ni gyd yn wrthryfelwyr sydd angen cael ein hachub, hyd yn oed os ydym yn credu ein bod yn gyfiawn. Mae Iesu’n tybied bod arnoch chi a fi angen iddo ein hachub ni.

RYDYM NI GYD YN WRTHRYFELWYR

A dyna’r ail bwynt: rydym ni gyd yn wrthryfelwyr.

Mae Iesu’n bod rhywfaint yn goeglyd wrth alw athrawon y gyfraith a’r Phariseaid yn “gyfiawn” yn adnod 17. Maent yn gyfiawn yn ôl eu safonau eu hunain, ond nid yn ôl safonau Duw. A dweud y gwir maent yn gwbl hunangyfiawn, ac angen eu hachub gymaint ag unrhyw un arall, er nad ydynt yn sylweddoli hynny. Yn wir, fel y gwelwn yn Marc pennod 3, adnod 6, mae’r bobl “gyfiawn” hyn yn mynd ati i gynllunio sut mae lladd Iesu.

Yma mae Iesu’n tybied bod pob unigolyn angen ei achub. Ac os yw’r dybiaeth hon yn anghyfforddus i chi, yna mae’n rhaid i ni wynebu cwestiwn anodd arall: Sut fyd yw’n byd ni go iawn? Wrth edrych ar y byd, mae’n siŵr eich bod yn gweld cymysgedd o dda a drwg.

Mae llawer o bethau yr ydym yn eu caru am y byd - pethau sy’n gwneud bywyd yn werth ei fyw. Mae gweld rhai pethau yn gwneud i ni feddwl bod y byd yn lle go arbennig. Rydym yn gweld plentyn bach yn neidio’n hapus i freichiau ei fam. Neu gwpl yn cerdded law yn llaw, wedi ymgolli’n llwyr yng nghwmni ei gilydd.

Ond yna, mae’r plentyn yn cwmpo ac yn dechrau crio, ac rydym yn sylweddoli nad yw poen byth yn rhy bell o hapusrwydd yn ein byd. Yna rydym yn gweld y cwpl yn ffræo ac mae hynny’n gwneud i ni feddwl am yr holl briodasau sy’n diweddu mewn ysgariad.

Os edrychwch ar hanes yr ugeinfed ganrif fe welwch fod can miliwn o bobl wedi marw mewn ffordd dreisgar yn ystod y can mlynedd. Mae hynny’n fwy nag a fu farw mewn ffordd dreisgar yn y bedair ganrif ar bymtheg flaenorol gyda’i gilydd. Nid yw’n anodd gweld bod rhyfel a marwolaeth yn dilyn heddwch a bywyd yn agos iawn yn ein byd.

Yn ôl y Beibl, y rheswm nad yw’r *byd* fel y dylai fod yw am nad ydym *ninnau* fel y dylem fod.

Ac eto mae meddwl ein bod angen ein hachub yn brifo ein balchder. Efallai y gallwn dderbyn bod *rhai* pobl angen eu hachub: y bobl wirioneddol ddrwg - y llofruddwyr, y treiswyr, y pedoffiliaid - ond nid ni, ac yn sicr nid ein teuluoedd a’n ffrindiau. Yn y bôn rydym yn bobl dda sydd ag ambell fai yma ac acw. Rydym yn hyderus bod y pethau da amdanom yn gorbwyso’r pethau drwg - ein bod yn ddigon da i Dduw. Ond mae’n rhaid i ni ofyn y cwestiwn anodd nesaf: “Sut bobl ydym ni go iawn?”

Dychmygwch am eiliad mai oriel gyhoeddus yw'r ystafell hon, a bod cofnod o'ch bywyd wedi'i blastro ar y waliau. Mae pob dydd wedi'i gofnodi ar y waliau: 24 Mai 1989, 24 Mai 1990, 24 Mai 1991, 24 Mai 1999 - pob un diwrnod. Mae'n gofnod llawn a chywir o bopeth yr ydych wedi'i ddweud a'i wneud, ond hefyd o bopeth yr ydych wedi'i feddwl. Mae hyd yn oed eich cymhellion wedi'u hamlygu i bawb eu gweld.

Nawr rwy'n siŵr y byddai llawer o bethau i'w dathlu ar y waliau: perthnasau cariadus, gwir gyflawniadau, gweithredoedd cariadus, achosion o fod yn hael ac anhunanol, efallai yrfa lwyddiannus. Ond hefyd byddai miloedd o bethau yr hoffem eu cadw allan o olwg y cyhoedd. Pa ran o'r wal yr hoffech ei chuddio fwyaf? Pa ddiwrnod? Efallai ei fod yn rhywbeth nad oes neb yn gwybod amdano - dim hyd yn oed eich ffrind agosaf neu'ch priod.

Ac nid y pethau rydym wedi'u dweud a'u gwneud yn unig yw'r broblem. Mae'r pethau y dylem fod wedi'u gwneud a'r bobl y dylem fod wedi'u helpu hefyd i fyny ar y waliau. Mae popeth ar gael i bawb ei weld.

Pe bai fy mywyd i ar y waliau byddai'n hunllef. Ni fyddwn i'n gallu aros yn yr ystafell, byddai cymaint o gywilydd arnaf. Allech chi aros yn yr ystafell - pe baech yn gwbl onest?

Felly beth yw'r broblem? Mae Iesu'n rhoi'r ateb i ni yn Marc pennod 7.

Mae'r bennod hon yn sôn am yr hyn sy'n halogi rhywun yn llygaid Duw; yr hyn sy'n gwneud rhywun yn annerbyniol i Dduw. Mae'r Phariseaid yn beio pethau allanol - rydych yn annerbyniol oherwydd y pethau yr ydych yn eu cyffwrdd, lle'r ydych yn mynd, neu'r hyn yr ydych yn ei fwyta. Ond mae Iesu'n dweud bod y broblem yn llawer mwy personol na hynny.

Trowch at Marc pennod 7, ac fe ddarllenwn adnodau 18-23.

> *Darllenwch Marc 7:18-23 allan yn uchel.*

Y broblem, meddai Iesu yn adnod 21, yw ein calonau. Dyna beth sy'n ein halogi. Pe baem yn olrhain holl ddrygioni'r byd yn ôl at ei ffynhonnell, byddem yn mynd yn ôl at y galon ddynol.

Pam ydym ni'n ei chael hi mor anodd gwneud y peth iawn? Pam mae hi mor anodd cadw perthnasau da yn dda? Pam ydym ni'n brifo'r bobl yr ydym yn eu caru fwyaf? Pam na allwn ni garu'n gilydd yn awtomatig? Oherwydd bod gan bob un ohonom broblem â'n calonau.

Allan o'n calonau y daw meddyliau drwg, puteinio, lladrata, llofruddio, godinebu, trachwantu, anfadwaith, twyll, anlladrwydd, cenfigen, cabledd, balchder ac ynfydrwydd. Y pethau hyn sy'n ein halogi. Dyma o ble y daw'r holl lid, cenfigen, uchelgais hunanol ac eiddigedd.

“Ond,” efallai eich bod yn dweud wrthy ch eich hun, “Dydw i ddim mor ddrwg â hynny. Dwi'n gwybod nad ydw i'n berffaith, ond dydw i ddim mor ddrwg â hynny.” Wel, mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth, mae arna i ofn. Trowch at Marc pennod 12 ac fe ddarllenwn adnodau 28-30.

> *Darllenwch Marc 12:28-30 allan yn uchel.*

Gan mai Duw sydd wedi'n creu, Ef sy'n ein cynnal, ac Ef sy'n rhoi popeth da i ni, a chan fod ganddo bŵer ac awdurdod dros ein bywydau, sut ddylem ni ymateb iddo? Mae Iesu'n dweud wrthym y dylem ymateb trwy Ei garu Ef.

Y gair brawychus yma yw "holl" - câr yr Arglwydd dy Dduw â'th *holl* galon ac â'th *holl* enaid ac â'th *holl* feddwl ac â'th *holl* nerth. Felly ni ddylem guddio unrhyw ran o'n bywydau oddi wrth Dduw. Dylem roi'r cyfan iddo.

Ond nid yw Duw wedi cael unrhyw beth gennym.

Rydym ni'n dewis yn union beth ydym ni'n ei wneud â'n calonnau, ein heneidiau, ein meddyliau a'n nerth. Rydym yn rhoi ein calonnau i lawer o bethau, ond nid i'n Creawdwr. Dydyn ni ddim hyd yn oed yn gwybod beth yw ei orchmynion, heb sôn am geisio *ufuddhau* iddynt. Rydym yn datblygu perthnasau ag eraill, ond rydym yn esgeuluso'r union berthynas y cawsom ein creu ar ei chyfer.

Ac yn hytrach na *charu* Duw, rydym yn byw fel mai ni yw Duw. Os ydym yn meddwl am bopeth ar y waliau hynny, y cofnod llawn o'n bywydau, fe welwn fod hynny'n wir. Mae pob un ohonom yn euog - yn euog o wrthryfela yn erbyn ein Creawdwr cariadus. Mae'r Beibl yn galw gwrthryfel o'r fath yn "bechod."

Ac mae hynny'n ein harwain at bwynt 3. O ganlyniad i'n pechod, rydym mewn perygl.

RYDYM NI MEWN PERYGL

Rwy'n siŵr bod llawer ohonoch wedi gweld y ffilm *Titanic*. Mae'r rhan fwyaf o'r teithwyr yn ddall i ddifrifoldeb eu sefyllfa. Maent yn brysur yn mwynhau parti gorau eu bywyd. Ond mae'r saer llongau a gynlluniodd y llong yn gwybod beth yw'r gwirionedd. Mae'n gwybod y bydd y llong yn suddo ac nad oes digon o fadau achub. Mae'n gwybod bod y sefyllfa'n hynod o ddifrifol.

Mae Iesu'n ein rhybuddio bod ein sefyllfa *ni'n* hynod o ddifrifol o ganlyniad i'n pechod. Mae'n dweud hyn yn glir iawn yn Marc pennod 9, adnodau 43-47. Ac nid yw'n ddarn hawdd ei ddarllen.

> *Darllenwch Marc 9:43-47 allan yn uchel.*

Yma mae Iesu'n ein rhybuddio y bydd ein pechod yn ein harwain i uffern. Os ydym yn gwrthod Duw trwy gydol ein bywyd, yna yn y pen draw bydd Duw'n parchu'r penderfyniad hwnnw - ac yn ein gwrthod ni.

Credwch fi, dydy hi ddim yn dasg bleserus sôn am eiriau Iesu yma, ac yn yr un modd, nid yw Duw yn cael unrhyw bleser o ganiatáu i bobl ddilyn eu llwybrau hunanddinstriol eu hunain. Gobeithio eich bod yn gweld mai'r rheswm fod Iesu'n ein rhybuddio am uffern yw oherwydd ei fod yn ein caru ac nid yw eisiau i ni fynd yno.

Yn ôl Iesu, dylem wneud popeth i osgoi mynd i uffern. Os yw ein troed yn peri i ni bechu, dylem ei dorri i ffwrdd. Os mai ein llygad yw'r broblem, dylem ei dorri allan. Mae uffern yn real, a dylem wneud popeth o fewn ein gallu i'w hosgoi.

Ond dyma'r peth anodd. Beth yw ein problem fwyaf? *Ein calon*. Os mai ein troed neu'n llaw oedd y broblem, gallem eu torri i ffwrdd. Ond allwn ni ddim torri ein calon allan.

Dyna'r prif reswm ein bod angen Iesu i'n hachub. Dyna pam y daeth ef. Fel y dywedodd ei hun, "i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod."

Yr wythnos nesaf, cawn weld yn union sut mae Iesu'n gwneud hynny.

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau. Gobeithio y byddant yn eich annog i drafod.

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Ydych chi'n cytuno eich bod mewn perygl?**
- **Sut fydddech chi'n teimlo pe byddai eich meddyliau, eich geiriau a'ch gweithredoedd i gyd wedi eu rhoi ar y waliau i bawb eu gweld?**
- **Beth yw eich ymateb chi i eiriau Iesu yn Marc pennod 9, adnodau 43-47?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Cyn y tro nesaf, defnyddiwch yr adran ASTUDIO GARTREF yn eich Llawlyfr Astudio i'ch helpu wrth i chi barhau i ddarllen trwy Marc.

